## ATODLEN 5

### Gorchmynion Datblygu Lleol

**4.** Rhaid darllen rheoliad 13 fel pe bai'n darparu—

"(1) Pan fo gorchymyn datblygiad lleol arfaethedig yn ddatblygiad AEA, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol nodi ei farn ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu yn y datganiad amgylcheddol ("barn gwmpasu").

(2) Rhaid i farn gwmpasu o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) plan sy'n ddigonol i adnabod y tir;

(b) disgrifiad byr o natur a phwrpas y datblygiad a'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd; ac

(c) unrhyw wybodaeth arall neu sylwadau eraill y gallai'r awdurdod cynllunio lleol ddymuno eu darparu neu eu gwneud.

(3) Rhaid i awdurdod beidio â mabwysiadu barn gwmpasu hyd nes ei fod wedi ymgynghori â'r ymgynghoreion.

(4) Cyn mabwysiadu barn sgrinio rhaid i'r awdurdod gymryd i ystyriaeth—

(a) nodweddion penodol y datblygiad neilltuol;

(b) nodweddion penodol datblygiad o'r math dan sylw; ac

(c) y nodweddion amgylcheddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad."